



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1179 (Cy. 265)

2020 No. 1179 (W. 265)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) 2020

The Waste (Wales) (Miscellaneous
Amendments) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth Gymreig benodol drwy ddiweddarau cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth at ddwy Gyfarwyddeb gan yr UE sydd wedi eu diwygio fel rhan o'r Pecyn Economi Gylchol ("PEG") Ewropeaidd, fel eu bod yn cyfeirio at y fersiynau diweddaraf o'r Gyfarwyddebau hynny. Mae'r PEG yn cynnwys diwygio nifer o Gyfarwyddebau gan yr UE at ddiben symud tuag at economi gylchol sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae diwygiadau ychwanegol i Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138)), sy'n gweithredu rhwymedigaethau UE eraill sy'n deillio o'r Pecyn Economi Gylchol.

These Regulations amend certain Welsh primary and secondary legislation by bringing up to date references in the legislation to two EU Directives that have been amended as part of the European "Circular Economy Package" ("CEP"), so as to refer to the latest versions of those Directives. The CEP consists of the amendment of a number of EU Directives for the purpose of moving towards a more resource efficient, circular economy. There are additional amendments to the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/1806 (W. 138)), implementing other EU obligations arising from the Circular Economy Package.

Y Cyfarwyddebau yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ynghylch gwastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ L 312 22.11.2008, t. 3) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff") a Chyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC dyddiedig 26 Ebrill 1999 ynghylch tirlenwi gwastraff (OJ L 182 16.7.1999, t. 1) ("y Gyfarwyddeb Dirlenwi").

The Directives are Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council of 19 November 2008 on waste and repealing certain Directives (OJ L 312 22.11.2008, p. 3) ("the Waste Framework Directive") and Council Directive 1999/31/EC of 26 April 1999 on the landfill of waste (OJ L 182 16.7.1999, p. 1) ("the Landfill Directive").

Diwygiwyd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851 (OJ L 150 14.6.2018, t. 109) a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/850 (OJ L 150 14.6.2018, t. 100).

The Waste Framework Directive was last amended by Directive (EU) 2018/851 (OJ L 150 14.6.2018, p. 109) and the Landfill Directive, by Directive (EU) 2018/850 (OJ L 150 14.6.2018, p. 100).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru. Ar y cyd â rheoliadau'r DU a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, maent yn ffurfio rhan o drosi i gyfraith ddomestig y diwygiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi.

These Regulations apply in relation to Wales. In conjunction with UK regulations made by the Secretary of State, they form part of the transposition into domestic law, of the amendments made to the Waste Framework Directive and the Landfill Directive.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (2010 mccc 8) er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Dirlenwi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (Cy. 155)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Dirlenwi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138)). Mae diwygiadau i reoliadau 2, 47 a 48 yn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi. Mae'r diwygiad i reoliad 5 yn rhoi effaith i newidiadau yn y diffiniad o "rheoli" gwastraff. Mae diwygiadau i reoliadau 19 a 20 yn rhoi effaith i newidiadau a wneir gan y PEG mewn perthynas â chymysgu olewau gwastraff a chymysgu gwastraff peryglus, yn y drefn honno.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1014 (Cy. 152)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/567 (Cy. 136)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Nid oes asesiad effaith llawn wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd yn cael unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol, na'r sector cyhoeddus.

Regulation 2 amends the Waste (Wales) Measure 2010 (2010 nawm 8) to bring up to date references to the Landfill Directive and the Waste Framework Directive.

Regulation 3 amends the Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/1490 (W. 155)), to bring up to date references to the Landfill Directive and the Waste Framework Directive.

Regulation 4 amends the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/1806 (W. 138)). Amendments to regulations 2, 47 and 48 bring up to date references to the Waste Framework Directive and Landfill Directive. The amendment of regulation 5 gives effect to changes in the definition of "management" of waste. Amendments to regulations 19 and 20 give effect to changes made by the CEP in relation to the mixing of waste oils and the mixing of hazardous waste, respectively.

Regulation 5 amends the Recycling, Preparation for Re-use and Composting Targets (Monitoring and Penalties) (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/1014 (W. 152)), to bring up to date references to the Waste Framework Directive.

Regulation 6 amends the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/567 (W. 136)), to bring up to date references to the Waste Framework Directive.

A full impact assessment has not been produced for this instrument as no, or no significant, impact on the private, voluntary or public sectors is foreseen.

2020 Rhif 1179 (Cy. 265)

2020 No. 1179 (W. 265)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) 2020

The Waste (Wales) (Miscellaneous
Amendments) Regulations 2020

Gwnaed 27 Hydref 2020

Made 27 October 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru* 28 Hydref 2020

Laid before Senedd Cymru 28 October 2020

Yn dod i rym 19 Tachwedd 2020

Coming into force 19 November 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) ("DCE 1972") mewn perthynas â mesurau ynghylch atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff(3) ac atal, lleihau a rheoli gwastraff(4).

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) ("the ECA 1972") in relation to measures relating to the prevention, reduction and elimination of pollution caused by waste(3) and the prevention, reduction and management of waste(4).

- (1) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("DLIC 2006") caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) ("DCE 1972") mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw neu at y diben hwnnw. Mae paragraff 28(1) o Atodlen 11 i DLIC 2006 yn darparu bod dynodiadau a wnaed o dan adran 2(2) o DCE 1972 yn rhinwedd adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) sydd mewn grym yn union cyn cychwyn diddymu'r is-adran honno gan DLIC 2006 yn parhau i gael effaith ar ôl cychwyn y diddymiad hwnnw fel pe baent wedi eu gwneud yn rhinwedd adran 59(1) o DLIC 2006.
- (2) 1972 p. 68. Diddymwyd DCE 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae DCE 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnysodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o DCE 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.
- (3) O.S. 2005/850.
- (4) O.S. 2010/1552.

- (1) By virtue of section 59(2) of the Government of Wales Act 2006 (c.32) ("GOWA 2006") the Welsh Ministers may exercise the power conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972 (c.68) ("the ECA 1972") in relation to any matter, or for any purpose, if they have been designated in relation to that matter or for that purpose. Paragraph 28(1) of Schedule 11 to GOWA 2006 provides that designations made under section 2(2) of the ECA 1972 by virtue of section 29(1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) which are in force immediately before the commencement of the repeal of that subsection by GOWA 2006 continue to have effect after the commencement of that repeal as if made by virtue of section 59(1) of GOWA 2006.
- (2) 1972 c. 68. The ECA 1972 was repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) ("the 2018 Act") with effect from exit day. "Exit day" is defined in section 20 of the 2018 Act as 31 January 2020 at 11pm. Despite that repeal the ECA 1972 continues to have effect with modifications until IP completion day, by virtue of section 1A of the 2018 Act. Section 1A was inserted by section 1 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) ("the 2020 Act"). "IP completion day" is defined in section 1A as 31 December 2020 at 11pm (the meaning given in section 39 of the 2020 Act). Section 2(2) of the ECA 1972 was previously amended by section 27(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).
- (3) S.I. 2005/850.
- (4) S.I. 2010/1552.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o DCE 1972, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Tachwedd 2020.

Diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

2.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3), yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”.

(3) Yn adran 17(2), yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

Diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

3.—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi 2004(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

(3) Yn rheoliad 7(10), yn lle “Reoliad y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”.

Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

4.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)(a), yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

(3) Yn rheoliad 5(2), yn y diffiniad o “rheoli”, ar ôl “adfer” mewnosoder “(gan gynnwys sortio)”.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the ECA 1972, make the following Regulations.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Waste (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 19 November 2020.

Amendment of the Waste (Wales) Measure 2010

2.—(1) The Waste (Wales) Measure 2010(1) is amended as follows.

(2) In section 9(3), for “Council Directive 2011/97/EU” substitute “Directive (EU) 2018/850”.

(3) In section 17(2), for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”.

Amendment of the Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004

3.—(1) The Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004(2) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1), in the definition of “waste facility” for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”.

(3) In regulation 7(10), for “Council Regulation 2011/97/EU” substitute “Directive (EU) 2018/850”.

Amendment of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005

4.—(1) The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(3) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1)(a), for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”.

(3) In regulation 5(2), in the definition of “management”, after “recovery” insert “(including sorting)”.

(1) 2010 mccc 8. Diwygiwyd gan O.S. 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2004/1490 (Cy. 155) a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/1820 (Cy. 148), 2015/1417 (Cy. 141) a 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2005/1806 (Cy. 138) a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/2861 (Cy. 250), 2011/971 (Cy. 141), 2013/755 (Cy. 90), 2018/721 (Cy. 140) a 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 2010 nawm 8. Amended by S.I. 2019/414 (W. 96). There are other amendments not relevant to these Regulations.

(2) S.I. 2004/1490 (W. 155) amended by S.I. 2005/1820 (W. 148), 2015/1417 (W. 141) and 2019/414 (W. 96). There are other amendments not relevant to these Regulations.

(3) S.I. 2005/1806 (W. 138) amended by S.I. 2009/2861 (W. 250), 2011/971 (W. 141), 2013/755 (W. 90), 2018/721 (W. 140) and 2019/414 (W. 96). There are other amendments not relevant to these Regulations.

(4) Yn lle rheoliad 19(4) rhodder—

“(4) Mae paragraff (1) yn gymwys i gymysgu olew gwastraff dim ond pan fyddai cymysgu olew o’r fath yn rhwystro atgynhyrchu neu weithrediad ailgylchu arall sy’n cyflawni canlyniad cyffredinol sy’n gyfwerth neu’n well nag atgynhyrchu.

(5) Ym mharagraff (4)—

ystyr “ailgylchu” (“*recycling*”) yw unrhyw weithrediad adfer lle y caiff deunyddiau gwastraff eu hailbroseu yn gynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau, boed hynny at y dibenion gwreiddiol neu ddibenion arall, gan gynnwys ailbroseu deunydd organig ond heb gynnwys adfer ynni nac ailbroseu ynni yn ddeunyddiau sydd i’w defnyddio fel tanwyddau;

ystyr “atgynhyrchu” (“*regeneration*”) yw unrhyw weithrediad ailgylchu lle y gellir cynhyrchu olewau sylfaen drwy buro olewau gwastraff, yn enwedig drwy gael gwared ar yr halogion, y cynhyrchion ocsideiddio a’r ychwanegion a gynhwysir mewn olewau o’r fath.”.

(5) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn lle “Mae’r rheoliad hwn” rhodder “Mae paragraff (2)”;
- (ii) yn is-baragraff (b)(i), hepgorer “ac yn economaidd”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Pan na fo gwahanu yn ofynnol yn unol â pharagraff (2), rhaid i’r deiliad wneud trefniadau i drin gwastraff peryglus a gymysgwyd mewn cyfleuster a awdurdodir gan drwydded gwastraff i drin y gwastraff hwnnw.”.

(6) Yn rheoliad 47(5B)—

- (a) yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”;
- (b) ar y diwedd mewnosoder “neu (3)”.

(7) Yn rheoliad 48(6B)—

- (a) yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”;
- (b) ar y diwedd mewnosoder “neu (3)”.

(4) For regulation 19(4) substitute—

“(4) Paragraph (1) applies to the mixing of waste oil only where such mixing would impede regeneration or another recycling operation delivering an equivalent or a better overall outcome than regeneration.

(5) In paragraph (4)—

“recycling” means any recovery operation by which waste materials are reprocessed into products, materials or substances whether for the original or other purposes, including the reprocessing of organic material but not including energy recovery or reprocessing into materials that are to be used as fuels;

“regeneration” means any recycling operation whereby base oils can be produced by refining waste oils, in particular by removing the contaminants, the oxidation products and the additives contained in such oils.”.

(5) In regulation 20—

(a) in paragraph (1)—

- (i) for “This regulation” substitute “Paragraph (2)”;
- (ii) in sub-paragraph (b)(i), omit “and economically”;

(b) after paragraph (2) insert—

“(2A) Where separation is not required pursuant to paragraph (2), the holder must make arrangements for mixed hazardous waste to be treated at a facility authorised by a waste permit to treat that waste.”.

(6) In regulation 47(5B)—

- (a) for “Council Directive 2011/97/EU” substitute “Directive (EU) 2018/850”;
- (b) at the end insert “or (3)”.

(7) In regulation 48(6B)—

- (a) “for Council Directive 2011/97/EU” substitute “Directive (EU) 2018/850”;
- (b) at the end insert “or (3)”.

Diwygio Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

5.—(1) Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff”, yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

6.—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1—

- (a) ym mharagraff 9, yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”;
- (b) ym mharagraff 10, yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

Amendment of the Recycling, Preparation for Re-use and Composting Targets (Monitoring and Penalties) (Wales) Regulations 2011

5.—(1) The Recycling, Preparation for Re-use and Composting Targets (Monitoring and Penalties) (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1), in the definition of “Waste Framework Directive”, for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”.

Amendment of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017

6.—(1) The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017(2) are amended as follows.

(2) In Schedule 1—

- (a) in paragraph 9, for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”;
- (b) in paragraph 10, for “Council Regulation (EU) 2017/997” substitute “Directive (EU) 2018/851”.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

27 Hydref 2020

©© Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers

27 October 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2011/1014 (Cy. 154) a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(2) O.S. 2017/567 (Cy. 136) a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1216 (Cy. 249). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2011/1014 (W. 154) amended by S.I. 2019/414 (W. 96). There are other amendments not relevant to these Regulations.
(2) S.I. 2017/567 (W. 136) amended by S.I. 2018/1216 (W. 249). There are other amendments not relevant to these Regulations.

£6.90

W202010271008 10/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1179>

ISBN 978-0-348-20648-7



9 780348 206487